Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

17 Chwefror 2009

A wrandewir ar ddysgwyr?

Heddiw, bydd Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn cyhoeddi adroddiad sy'n nodi sut mae Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc Cymru yn cysylltu â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn[1].

Bwriedir i'r adroddiad helpu staff mewn ysgolion a darparwyr eraill i adolygu eu gweithdrefnau hunanarfarnu ac i ystyried a yw plant a phobl ifanc yn chwarae rhan ddigonol yn y broses.

Mae cyfranogiad wedi cael ei ddiffinio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chonsortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru fel yr hawl "i fod yn rhan o wneud penderfyniadau neu o gynllunio ac adolygu camau a allai effeithio arnaf i. Cael llais, cael dewis."

Meddai Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, *"Gyda'i gilydd, mae Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc Cymru a Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn yn cynnig cyfrwng defnyddiol ar gyfer arfarnu graddfa ac effeithiolrwydd cyfranogiad gan ddysgwyr.* "

Mae Estyn wedi cyhoeddi cyfres o adroddiadau ar gyfranogiad plant a phobl ifanc yn ystod y blynyddoedd diwethaf:

- adroddiad yn 2006 ar gyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid[2];
- adroddiad yn 2007 ar gyfranogiad mewn ysgolion cynradd[3]; ac

---

1 http://www.estyn.gov.uk/publications/CommonInspectionFramework.pdf
2 http://www.estyn.gov.uk/publications/Young_Peoples_remit_report.pdf
3 http://www.estyn.gov.uk/publications/Remit_report_Decision_making.pdf

- adroddiad yn 2008 ar gyfranogiad a chynghorau ysgol mewn ysgolion uwchradd[4].

Yn 2004, cyflwynodd Estyn y Fframwaith Arolygu Cyffredin (FfAC) ar gyfer arolygu ysgolion ac mae wedi safoni'r dull o gynnal arolygiadau. Mae'r FfAC yn cynnwys saith cwestiwn allweddol sy'n berthnasol i'r darparwr addysg neu hyfforddiant, ynghyd â bod yn berthnasol i agweddau ar ei waith, fel meysydd dysgu, pynciau, cyrsiau, rhaglenni a meysydd galwedigaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn mynd ymlaen i drafod sut mae pob un o'r saith cwestiwn allweddol yn cysylltu â saith Safon Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc Cymru.

-DIWEDD-

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cysylltiadau, y Cyfryngau a Marchnata ar 02920 446464 neu anfonwch neges e-bost at cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk

Nodiadau i olygyddion

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Arolygu cyfranogiad: Mapio'r Fframwaith Arolygu Cyffredin yn ôl Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc Cymru' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn www.estyn.gov.uk

- Estyn yw'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer Cymru. Mae Estyn yn comisiynu arolygwyr annibynnol (arolygwyr cofrestredig, tîm a lleyg) ac Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant i gynnal arolygiadau ar draws yr ystod gyfan o ddarparwyr addysg a hyfforddiant.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a lleoliadau meithrin sy'n cael eu cynnal neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau), ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, awdurdodau addysg lleol, addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, dysgu troseddwyr, cwmnïau gyrfa, ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddiant a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

---

[4] http://www.estyn.gov.uk/publications/Having_your_say_young_people_participation_and_school_councils.pdf